Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
General Teaching Council for Wales

Rhaglen Gyllido DPP

Llyfryn Gwybodaeth

Ebrill 2009 i Fawrth 2010

PWYSIG: CADWCH Y LLYFRYN HWN YN DDIOGEL

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ynghylch CyngACC

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) yw'r corff statudol, hunanreoleiddiol a phroffesiynol ar gyfer athrawon yng Nghymru. Mae'n ceisio codi statws addysgu trwy gynnal a hyrwyddo'r safonau uchaf o arferion proffesiynol ac ymddygiad er lles athrawon, disgyblion a'r cyhoedd.

Nod y Cyngor yw darparu llais annibynnol, cynrychioliadol ac awdurdodol ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru ac mae'n ceisio darparu cyngor cynhwysfawr i Lywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau eraill ynghylch materion addysgu.

Diben y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn nodi manylion y cyllid sydd ar gael i athrawon cofrestredig o dan y Rhaglen Gyllido DPP â ffocws unigol a weinyddir gan GyngACC ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Hawliau am gyllid sy'n bodloni'r Telerau ac Amodau ac a gytunwyd **yn ysgrifenedig** gan y Cyngor yn unig a gaiff eu had-dalu gan GyngACC.

Cynnwys

		tudalen/nau
1.0	**Gwybodaeth Gyffredinol**	**3-9**
	Gwybodaeth Ariannol	**10-11**
2.0	**Camau i geisio'n llwyddiannus**	**12**
3.0	**Bwrsari Datblygiad Proffesiynol**	**13**
4.0	**Prosiect Ymchwil Gweithredol**	**14-15**
5.0	**Cyfnod Sabothol Athrawon**	**16**
6.0	**Rhwydwaith Proffesiynol**	**17-18**

1.0 Gwybodaeth Gyffredinol

1.1 Y cyllid DPP sydd ar gael

Yn ystod y cyfnod 2008-2011, bydd y Cyngor yn gweinyddu pedwar math o brosiect.
Caiff athrawon ymgeisio am un grant yn unig mewn unrhyw flwyddyn ariannol.

Ni all athrawon sydd wedi cael cyllid yn y **ddwy** flwyddyn ariannol flaenorol (2007-2008 a 2008-2009) geisio am gyllid yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol (2009-2010). Mae hyn yn berthnasol i unrhyw gyfuniad o grantiau.

Er enghraifft, os oeddech yn aelod o Rwydwaith yn 2007-2008 a chawsoch Fwrsari yn 2008-2009, ni fyddwch yn gymwys i ymgeisio yn ystod 2009-2010.

Bwrsari Datblygiad Proffesiynol – hyd at £650 i'w wario ar weithgaredd datblygiad proffesiynol o ddewis yr athro/athrawes, gan gynnwys ymweliadau o fewn a thu allan i'r DU i arsylwi arfer da a chyfnewid syniadau.
(Gweler tudalennau 3-8, 10-11 a 13)

Prosiect Ymchwil Gweithredol – hyd at £1,500 i gynnal ymchwil gweithredol mewn maes sy'n berthnasol i arfer yr unigolyn yn yr ystafell ddosbarth. *(Gweler tudalennau 3-8, 10-11 a 14-15)*

Cyfnod Sabothol Athrawon – hyd at £5,250 i alluogi athro/athrawes brofiadol i ymgymryd â chyfnod astudio estynedig neu i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy mewn amgylchedd gwahanol.
(Gweler tudalennau 3-8, 10-11 a 16)

Rhwydwaith Proffesiynol – hyd at £650 fesul aelod (anhrosglwyddadwy) i alluogi grŵp o athrawon o ysgolion gwahanol i weithio gyda'i gilydd yn rheolaidd dros gyfnod o amser.
(Gweler tudalennau 3-8, 10-11 a 17-18)

Mae'r wybodaeth ganlynol yn berthnasol i'r holl brosiectau a gynhwysir yn y llyfryn hwn.

1.2 Pwy all wneud cais?

Caiff pob athro/athrawes gofrestredig sy'n addysgu ar hyn o bryd yn amser llawn neu'n rhan-amser mewn ysgol feithrin, gynradd, uwchradd, arbennig neu Uned Cyfeirio Disgyblion yng Nghymru wneud cais am gyllid DPP (yn amodol ar yr eithriadau a nodir o dan adran 1.3).

Caiff athrawon cyflenwi cofrestredig neu athrawon cofrestredig nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw ysgol benodol, fel athrawon peripatetig sy'n gallu darparu tystiolaeth eu bod wedi gweithio fel athrawon mewn un o'r mathau uchod o ysgolion am o leiaf 20 diwrnod yn ystod y 12 mis cyn eu cais, ymgeisio.

Caiff athrawon cofrestredig sy'n cael eu cyflogi fel ymgynghorwyr yn rhan-amser ond sydd hefyd yn gweithio'n rhan-amser fel athrawon cyflenwi wneud cais cyhyd â'u bod yn gallu darparu tystiolaeth o'u cyflogaeth fel athrawon am o leiaf 20 diwrnod yn ystod y 12 mis cyn eu cais.

Athrawon Newydd Gymhwyso nad ydynt eto mewn sefyllfa i ymgymryd â Sefydlu ond sy'n gweithio fel athrawon cyflenwi.

Caiff athrawon ymgynghorol ac ymgynghorwyr sydd hefyd yn ymgymryd â rôl athrawon (gyda chyfrifoldebau penodol ar amserlen ysgol am ddisgyblion penodol yn rheolaidd), wneud cais am gyllid.

Mae athrawon sydd ar gyfnod mamolaeth/tadolaeth yn gymwys.

Caiff athrawon sy'n gweithio'n rhan-amser wneud cais am gyllid i dalu costau ychwanegol ond ni chânt wneud cais i dalu am gostau cyflenwi am ddiwrnodau sy'n ychwanegol at eu horiau cytundebol presennol.

1.3 Pwy na all wneud cais?

Ni all athrawon sydd wedi cael cyllid yn y **ddwy flwyddyn** ariannol flaenorol (2007-2008 a 2008-2009) geisio am gyllid yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol (2009-2010). **Mae hyn yn berthnasol i unrhyw gyfuniad o grantiau.**

Nid yw athrawon cofrestredig sy'n cael eu cyflogi fel ymgynghorwyr neu athrawon ymgynghorol yn amser llawn, y mae eu rôl yn cynnwys cynllunio, cyflwyno a hwyluso darpariaeth HMS ond nad oes ganddynt gyfrifoldebau mewn ysgol heblaw arddangos gwersi yn gymwys i wneud cais. Mae hyn yn berthnasol i ymgynghorwyr ac athrawon ymgynghorol ni waeth a gânt eu cyflogi'n barhaol neu os ydynt ar secondiad o'u hysgolion.

Nid yw athrawon sydd wedi'u secondio i rolau y tu allan i ysgolion yn gymwys i wneud cais am gyllid yn ystod cyfnod eu secondiad, ond byddant yn gymwys ar ôl dychwelyd i'w hysgol.

Nid yw athrawon sy'n derbyn cyllid ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Sefydlu Statudol neu Ddatblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC) yn gymwys.

Nid yw penaethiaid neu uwch reolwyr sy'n derbyn cyllid ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymgymryd â Rhaglen Sefydlu Broffesiynol i Benaethiaid (PHIP), Rhaglen Arweinyddiaeth i Benaethiaid mewn Swydd (LPSH) neu'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) yn gymwys.

Nid yw athrawon sy'n ymgymryd â DPP ar hyn o bryd drwy gyllid uniongyrchol arall gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gymwys.

Rhaid i athrawon hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o unrhyw newid i'w cyflogaeth os ydynt yn derbyn cyllid neu os ydynt wedi gwneud cais am gyllid.

1.4 Ceisiadau

- Caiff athro/athrawes dderbyn **un grant yn unig** mewn unrhyw flwyddyn ariannol.
- Dylai ymgeiswyr ddarllen yr Wybodaeth Gyffredinol yn ofalus, ynghyd â'r adran sy'n benodol i'w prosiect a'r wybodaeth ariannol yn y llyfryn hwn cyn cwblhau cais.
- Rhaid i unrhyw brosiect gael ei ddechrau a'i gwblhau, a rhaid cyflwyno'r hawliad am gyllid, yn yr un flwyddyn ariannol. Hynny yw, 19 Mawrth 2009 – 18 Mawrth 2010
- Pan fydd gweithgaredd/cwrs yn rhedeg dros ddwy flwyddyn ariannol, gellir dyfarnu cyllid ar sail 'pro-rata' os dilynwyd digon o'r cwrs i ganiatáu ysgrifennu adroddiad ystyrlon ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. **Bydd angen cyflwyno ffurflen gais newydd newydd (lle y bo'n briodol) ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ganlynol.** Cyfeiriwch at y Llyfryn Gwybodaeth newydd (i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2010) cyn cyflwyno cais.
- Ni ddylid gwneud cais am fwrsari fwy na chwe mis cyn dyddiad y gweithgaredd.
- Gellir ond ystyried cyllid ar gyfer yr athrawon hynny sydd wedi cyflwyno ffurflen gais unigol cyn i'r gweithgaredd ddechrau. **Ni ellir** trosglwyddo cyllid o un athro i'r llall.
- Caiff cyllid ar gyfer grantiau Bwrsari/Bwrsari Rhyngwladol ei ystyried ar sail y cyntaf i'r felin gaiff falu.
- **Un dyddiad cau** a geir ar gyfer cyflwyno ceisiadau am y grantiau canlynol: Prosiectau Ymchwil Gweithredol, Cyfnodau Sabothol Athrawon a Rhwydweithiau Proffesiynol. Rhaid cyflwyno'r ceisiadau hyn **erbyn 1af Mehefin 2009. Ni chaiff ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried am gyllid.** Bydd y cyllid ar gyfer y grantiau hyn yn talu am weithgareddau sy'n digwydd yn nhymhorau'r hydref a'r gwanwyn yn unig.

Math o Grant	Pryd i ymgeisio:
Bwrsari/Bwrsari Rhyngwladol	Y cyntaf i'r felin gaiff falu
Prosiect Ymchwil Gweithredol	Erbyn 1af Mehefin 2009
Cyfnod Sabothol Athro	Erbyn 1af Mehefin 2009
Rhwydwaith Proffesiynol	Erbyn 1af Mehefin 2009

- Dylai ymgeiswyr gwblhau'r ffurflen gais briodol sydd ynghlwm wrth y llyfryn hwn. Bydd angen i ymgeiswyr gynnwys y canlynol:
  - rhesymeg dros eu hangen am ddatblygiad proffesiynol
  - manylion y gweithgaredd datblygiad proffesiynol (gan gynnwys dyddiadau a cherrig milltir)
  - manylion clir am y canlyniadau disgwyliedig neu fanteision y gweithgaredd, a mesurau llwyddiant iddyn nhw eu hunain fel athrawon ac i'r ysgol a'u disgyblion lle bydd hynny'n briodol
  - manylion ynghylch sut y caiff eu profiadau eu rhannu ag eraill (lledaenu)
- Caiff ceisiadau eu gwerthuso ar sail yr wybodaeth a ddarperir yng nghynigion y prosiect ar y ffurflenni cais yn unig.
- Cynghorir athrawon i ystyried **pob** cost a gweithgaredd cyn cyflwyno cais, am efallai na chaiff ychwanegiadau neu addasiadau diweddarach eu derbyn. Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau'r adran gwybodaeth ariannol ar y ffurflen berthnasol. **Dim ond gweithgareddau y mae wedi cytuno iddynt yn ysgrifenedig cyn dechrau'r gweithgaredd y bydd y Cyngor yn eu cyllido.**
- Rhaid i bob ffurflen gael ei chyd-lofnodi gan y pennaeth neu aelod priodol o'r Uwch Dîm Rheoli mewn ysgol, ond yn achos pennaeth, rhaid i'r cais gael ei lofnodi gan Gadeirydd y Llywodraethwyr. Dylai athrawon cyflenwi sy'n ymgeisio am gyllid sicrhau bod pennaeth un o'r ysgolion lle maent yn gweithio'n rheolaidd yn llofnodi eu ffurflen gais.
- Dylid argraffu ceisiadau a gwblheir ar-lein er mwyn i'r athro/athrawes a'r Pennaeth/Cadeirydd y Llywodraethwyr eu llofnodi.

- Ni chaiff ffurflenni anghyflawn eu hystyried am gyllid.
- Ni chaiff ffurflenni union debyg gan ddau athro/athrawes neu fwy eu hystyried, oherwydd y dylai ffurflenni cais adlewyrchu anghenion datblygiad proffesiynol unigryw yr unigolyn.
- Rhaid cyflwyno unrhyw newidiadau i'r cais gwreiddiol yn ysgrifenedig.
- Dylai athrawon sicrhau eu bod yn cadw copi o'u cais a'u bod yn talu costau postio digonol wrth bostio (h.y. ar gyfer pwysau a maint yr amlen a ddefnyddir). **PWYSIG – Nid** yw stamp dosbarth cyntaf cyffredinol yn ddigon ar gyfer amlen maint A4 (www.royalmail.com). Ar yr athro/athrawes mae'r cyfrifoldeb os oes oedi i geisiadau oherwydd na thelir costau postio digonol. Caiff athrawon eu hatgoffa nad yw tystiolaeth o bostio'n dystiolaeth bod post wedi cyrraedd ei gyrchfan.
- Os na fydd y Cyngor wedi cysylltu ag athro/athrawes yn ysgrifenedig o fewn 30 diwrnod i gadarnhau a fu'r cais yn llwyddiannus ai peidio, cynghorir ef/hi i gysylltu â Thîm DPP y Cyngor.

1.5 Meini prawf llwyddo

Caiff ceisiadau eu gwerthuso yn erbyn y meini prawf canlynol:

- y rhesymeg dros yr angen am ddatblygiad proffesiynol
- effaith y cynnig ar arfer yr athro/athrawes
- eglurder y cynnig gan gynnwys amcanion a chanlyniadau realistig
- gwerthusiad wedi'i esbonio'n glir o effaith y canlyniadau a'r modd o'u cyflawni
- gwerth am arian

1.6 Cyllid

1.6.1 Gwariant cymwys

Caiff athrawon ddefnyddio'r cyllid i dalu am yr holl gostau rhesymol a delir yn gysylltiedig â'u gweithgaredd datblygiad proffesiynol, fel:

- costau athrawon cyflenwi. Noder, mae hyn i dalu am yr amser pan fyddai athro/athrawes yn addysgu fel arfer. Gellir defnyddio goruchwylwyr cyflenwi (gweler yr adran gyllid am gyfraddau).
- ffioedd cyrsiau, cynadleddau neu weithdai
- ffioedd ymgynghori (gweler tudalennau'r prosiectau unigol am y terfynau)
- costau teithio a chynhaliaeth rhesymol
- costau gofal plant uwchlaw'r costau a delir fel arfer
- gellir gofyn am hyd at hanner diwrnod o gyflenwi i alluogi ymgeisydd i adfyfyrio am y gweithgaredd yr ymgymerwyd ag ef a'i ledaenu
- prynu deunyddiau sy'n uniongyrchol berthnasol i'r cynnig fel llyfrau, fideos neu feddalwedd hyd at fwyafswm o £65 fesul athro/athrawes

Pan nodir adnoddau/llyfrau, caiff athrawon ofyn am hyd at £65. Pan fydd adnoddau'n disgyn i'r categori 'argymhellir ar y dydd', y mwyafswm yw £30. Os na nodir adnoddau, dyrennir mwyafswm o £30.

Dylai adnoddau fod yn rhan annatod o'r gweithgaredd. <u>Ni chânt</u> eu cyllido os cânt eu prynu cyn i'r cyllid gael ei ddyfarnu neu ar ôl y terfyn amser hawlio.

Gall athrawon cymwys ddefnyddio'r Rhaglen Gyllido DPP i ategu blaenoriaethau strategol allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg fel y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, y Fenter Addysgeg, llythrennedd a rhifedd, y cwricwlwm newydd a Bagloriaeth Cymru.

1.6.2 Gwariant anghymwys

Ni ddyrennir cyllid i'r gweithgareddau canlynol:

- gweithgareddau sydd eisoes wedi'u cwblhau
- gweithgareddau nad ydynt wedi'u cytuno'n ysgrifenedig gan y Cyngor ymlaen llaw
- gweithgareddau a gaiff eu hystyried yn rhan o waith arferol athro/athrawes fel diweddaru Cynllun Gwaith neu Bolisi'r Ysgol, monitro, archwilio adnoddau, ayyb
- mynychu cyrsiau 'cynnal a chadw' byrddau arholi. Os yw ymgeisydd wedi cael cyllid o'r blaen i ymgymryd â gweithgareddau tebyg, mae'n hanfodol eu bod yn gallu dangos dilyniant clir yn eu datblygiad proffesiynol. Bydd ymgeiswyr yn gallu ategu eu cais drwy ddarparu copi o raglen y cwrs
- cyfarfodydd tymhorol a drefnwyd
- cyflogi athrawon rhan-amser neu athrawon cyflenwi i ymgymryd â gweithgareddau DPP ar ddiwrnodau nad ydynt wedi'u contractio ar eu cyfer
- ail-gynnal gweithgareddau DPP tebyg, neu fathau tebyg o brosiectau, flwyddyn ar ôl blwyddyn (gweler hefyd tudalennau'r prosiectau)
- tywys disgyblion ar ymweliadau ysgol neu i fynychu gweithgareddau sydd wedi'u bwriadu'n bennaf ar gyfer disgyblion / eraill
- gwariant cyfalaf (h.y. prynu pob math o galedwedd a nwyddau eraill dros £65 sydd â bywyd silff o dros 12 mis)
- adnoddau ar gyfer disgyblion
- prynu cetris inc, ffeiliau, deunyddiau swyddfa yn gyffredinol
- costau llogi ystafelloedd; heblaw am ar gyfer cyfleusterau arbenigol
- ysgrifennu traethodau aseiniadau addysg uwch MA / MAdd
- gwasanaethau nad ydynt yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygiad proffesiynol athro/athrawes e.e. teipio adroddiadau, rhwymo adroddiadau, trawsgrifio tapiau, lamineiddio neu argraffu llyfrynnau
- ad-dalu athrawon am weithgareddau a gynhaliwyd gyda'r nos neu ar benwythnosau
- cyfieithu adnoddau
- diodydd meddwol

1.7 Apeliadau

Wrth ymgeisio am gyllid, dylai unrhyw athro/athrawes sy'n anfodlon ar unrhyw gam o'r broses gyllido ysgrifennu at y Rheolwr Datblygiad Proffesiynol yn y lle cyntaf. Mae dogfen Safonau Gwasanaeth y Cyngor yn disgrifio'r gwasanaeth y gallwch ddisgwyl ei dderbyn gan swyddogion y Cyngor. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi ein system ar gyfer ymdrin â chwynion. Gellir dod o hyd i'r ddogfen Safonau Gwasanaeth ar wefan CyngACC neu mae copi ar gael ar gais.

1.8 Ysgrifennu'r adroddiad

Bydd gofyn i athrawon sy'n derbyn cyllid ysgrifennu adroddiad byr. Ni ddylai'r adroddiad fod yn ddisgrifiad o'r gweithgaredd ond yn ddarn adfyfyriol am effaith y gweithgaredd ar ddatblygiad yr athro/athrawes ei hun, yr ysgol a chynyddu cyflawniad disgyblion. Dylai adeiladu ar y ffurflen gais wreiddiol a gyflwynwyd a dylai gynnwys:

- y rhesymeg dros eu hangen am ddatblygiad proffesiynol
- manylion sut mae llwyddiant y gweithgaredd datblygiad proffesiynol wedi'i fesur yn y tymor byr a sut caiff ei fesur yn y tymor hwy
- manylion ynghylch y gwir fanteision neu ganlyniadau a gafwyd yn sgil y gweithgaredd i'r athro/athrawes, yr ysgol a chynyddu cyflawniad disgyblion
- manylion sut mae'r profiadau a gafwyd wedi'u rhannu ag eraill neu sut y bwriedir eu rhannu (lledaenu)

I gynorthwyo gyda pharatoi'r adroddiad, mae arweiniad ar gael ar wefan y Cyngor yn: www.gtcw.org.uk/cpd.

Disgwylir i'r adroddiadau hyn fod yn sail i athrawon ac ysgolion gynllunio DPP yn y dyfodol. Dylai'r athro/athawes gadw copi o'r adroddiad a gallai Estyn neu werthuswyr annibynnol ofyn amdano fel rhan o werthusiad y rhaglen.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddychwelyd unrhyw adroddiad, pan fydd yn credu nad yw'r cynnwys yn adlewyrchu'r amser a'r cyllid a ddyrennir, i'w ddatblygu ymhellach. Ni wneir unrhyw daliad nes bod y Cyngor yn fodlon.

1.9 Amlinellir y gofynion adrodd fel a ganlyn:

Bwrsari Datblygiad Proffesiynol – adroddiad o hyd at 1,000 o eiriau. Dylid cadw copi o'r adroddiad hwn ym mhortffolio Datblygiad Proffesiynol yr athro/athrawes.

Bwrsari Rhyngwladol – adroddiad o hyd at 1,000 o eiriau y mae'n rhaid ei gyflwyno i'r Cyngor.

Prosiect Ymchwil Gweithredol – adroddiad ymchwil gweithredol o hyd at 3,000 o eiriau. Rhaid i'r adroddiad gael ei lofnodi gan y Mentor a'i gyflwyno i'r Cyngor.

Cyfnod Sabothol Athrawon – adroddiad o hyd at 2,000 o eiriau. Rhaid i'r adroddiad gael ei lofnodi gan y Mentor a'i gyflwyno i'r Cyngor.

Rhwydwaith Proffesiynol
Cydlynydd – adroddiad o hyd at 1,500 o eiriau, y mae'n rhaid ei gyflwyno i'r Cyngor.

Aelodau unigol Rhwydwaith – adroddiad o hyd at 1,000 o eiriau i'w gadw ym mhortffolio Datblygiad Proffesiynol yr athro/athrawes.

1.10 Gwefan Cyllid DPP CyngACC (www.gtcw.org.uk/cpd)

Mae'r Cyngor wedi gwella'r adnodd presennol sydd ar gael ganddo ar y we i gynorthwyo athrawon ac eraill â diddordeb yn Rhaglen Gyllido DPP CyngACC. Mae'n cynnwys:

- manylion y rhaglen gyllido bresennol, gan gynnwys mathau o brosiectau, copïau o'r ffurflenni cais / hawlio safonol a'r Llyfryn Gwybodaeth hwn
- deunyddiau sy'n rhoi arweiniad i gynorthwyo athrawon mewn perthynas ag agweddau ar y broses gyllido, fel nodi canlyniadau wrth gynllunio gweithgaredd a sut i ledaenu eu profiadau i athrawon eraill
- ffurflenni cais enghreifftiol wedi'u cwblhau ar gyfer bron pob math o brosiect
- arweiniad i athrawon ei ddefnyddio wrth baratoi adroddiadau terfynol a ffurflenni hawlio
- rhestr o'r holl brosiectau a gyllidwyd gan y Cyngor ac a gwblhawyd yn ddiweddar, ynghyd â manylion ychwanegol os yw athrawon wedi dewis eu darparu
- Adnodd Adroddiadau, sy'n cynnwys nifer o grynodebau adroddiadau blynyddoedd blaenorol
- adroddiadau gwerthuso annibynnol camau peilot y rhaglen gyllido (2001-04)

Anogir athrawon i wneud defnydd o'r adnodd gwerthfawr hwn. Gellir cyrchu gwefan Cyllid DPP o hafan dudalen gwefan y Cyngor yn: www.gtcw.org.uk

1.11 Rhannu gwybodaeth prosiectau

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod manylion prosiectau a gwblhawyd ar gael mewn nifer o ffyrdd. Bydd hyn yn bennaf i alluogi cynifer o athrawon â phosibl i rannu syniadau a lledaenu eu gweithgareddau DPP mor eang â phosibl. Bydd rhannu gwybodaeth yn cynnwys:

(a) Gwybodaeth ar gyfer Awdurdodau Addysg Lleol. Mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth am brosiectau i'r AALl perthnasol, i gynorthwyo Cydlynwyr DPP AALlau i fonitro gweithgarwch lleol a hwyluso rhannu arfer da.

(b) Gwefan CyngACC. Mae gwefan y Cyngor (www.gtcw.org.uk/cpd) yn cyhoeddi gwybodaeth am brosiectau a gyllidwyd yn flaenorol.

(c) Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru. Yn ogystal ag effaith gweithgareddau ar ddatblygiad proffesiynol, mae rhai prosiectau'n arwain at gynhyrchu adnoddau addysgu a deunyddiau cynnal. Dylai unrhyw athro/athrawes sydd am gael cyngor ynghylch cynhyrchu adnoddau gysylltu â GCaD Cymru ar 029 2026 5177 neu info@ngfl-cymru.org.uk.

(ch) Cyfleoedd lledaenu. Drwy oruchwylio'r Rhaglen Gyllido, mae'r Cyngor yn ymwybodol yn aml o gyfleoedd i athrawon ledaenu eu gweithgareddau ymhellach. Gallai hyn gynnwys rhoi cyflwyniad mewn cynhadledd leol neu genedlaethol neu gyhoeddi erthygl mewn cyfnodolyn proffesiynol. Pan fydd y Cyngor yn nodi cyfleoedd o'r fath, gallai'r Cyngor wahodd athro/athrawes i gynorthwyo. Mewn amgylchiadau o'r fath, telir costau gwasanaeth cyflenwi, ar gyfer paratoi a mynychu.

(d) Estyn. Mae Estyn yn darparu cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar effaith y rhaglen gyllido ar ddatblygiad proffesiynol athrawon, eu hysgol a dysgu disgyblion. Efallai y bydd Estyn yn ymweld ag athrawon mewn ysgolion i adolygu eu prosiect a'i ganlyniadau. Dylai athro/athrawes fod yn barod i roi copi o'i adroddiadau/ei hadroddiadau ysgrifenedig i Estyn ac i drafod canlyniadau'r prosiect os oes angen.

1.12 Gwybodaeth ariannol a chyfraddau

Dim ond ar ôl ymgymryd â'r gweithgaredd y dylid cyflwyno hawliadau.

Ad-delir y costau a gafwyd gan yr ymgeisydd a dderbyniodd y cyllid yn unig.

Fel arfer, **un hawliad** fesul grant a dderbynnir.

Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno i'r Cyngor o fewn 1 mis o gwblhau'r gweithgaredd a gyllidwyd (ac eithrio mis Gorffennaf a mis Mawrth). Nodir y dyddiad hwn ar y llythyr dyfarnu.

Y dyddiad olaf ar gyfer hawliadau yw 18 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn ariannol.

Os oes taliadau i'w gwneud i fwy nag un person/ysgol / sefydliad, mae'n rhaid cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol ar un Ffurflen Hawlio Cyllid. Bydd y Cyngor yn talu'r hawliad yn unol â'r cais gwreiddiol am gyllid a'r hyn a ddyrannwyd.

Unwaith i hawliad gael ei dalu, **ni** chaiff athro/athrawes gyflwyno hawliad arall hyd yn oed os nad yw wedi defnyddio'r cyllid a ddyrannwyd iddynt.

Mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, pan fydd gofyn talu ffi cwrs neu os bydd angen yr arian ar ysgol i dalu costau cyflenwi, bydd y Cyngor yn ystyried cais am daliad interim. Mewn amgylchiadau lle gwnaed taliad interim ond ni chwblheir y gweithgaredd, bydd y Cyngor yn cymryd camau i adennill yr arian.

Costau cyflenwi/gwasanaeth goruchwylio
Ar gyfer athrawon cyflenwi cymwys, telir y rhain ar gyfradd unffurf o £165 y dydd.

Ar gyfer goruchwylwyr a staff arall, telir y rhain ar gyfradd unffurf o £80 y dydd.

I gyflogwyr yn unig y bydd y Cyngor yn ad-dalu costau gwasanaeth cyflenwi/gwasanaeth goruchwylio. Nid oes angen cyflwyno copi o'r anfoneb oni ofynnir i chi wneud hynny.

Dylid hawlio cost athrawon cyflenwi ar y ffurflen Hawlio Cyflenwi a chynnwys y manylion talu ar y ffurflen Hawlio Cyllid.

Ym mhob achos mae'n rhaid cynnwys enw'r athro/athrawes gyflenwi ynghyd â Rhif Cyfeirnod neu fanylion cyswllt yr athro/athrawes.

Nid yw cyflogi athrawon rhan-amser am ddiwrnodau ychwanegol i ymgymryd â gweithgareddau DPP yn gymwys.

Mae angen darparu **derbynebau** i roi cyfrif am bob gwariant heblaw treulio milltiroedd car.

Rhaid i dderbynebau nodi manylion y nwyddau a brynwyd, gan gynnwys derbynebau tiliau.

Wrth drefnu i gymryd rhan ar gwrs neu unrhyw weithgaredd arall y mae angen talu amdano, dylai athrawon ymgymryd â'r holl drefniadau gofynnol a threfnu i dderbyn yr anfoneb. Gellir cyflwyno'r anfoneb heb ei thalu i'r Cyngor ynghyd â'r ffurflen Hawlio Cyllid, ond mae'n rhaid nodi enw'r athro/athrawes neu'r ysgol fel y dyledwr.

Dylid cyfeirio pob anfoneb naill ai i'r athro/athrawes neu'r ysgol. Caiff anfonebau am wasanaethau allanol fel mynychu cwrs wedi'u cyfeirio at y Cyngor eu dychwelyd. Ni fydd y Cyngor yn derbyn unrhyw rwymedigaeth fel dyledwr am wariant a delir o dan y Rhaglen Gyllido DPP.

Dim ond pan na fu modd i'r athro/athrawes neu'r ysgol hawlio costau TAW ar wariant yn ôl y gellir eu hawlio, neu os nad yw wedi'i hawlio'n ôl o rywle arall. Os yw'r athro/athrawes, neu'r ysgol, wedi hawlio'r TAW yn ôl o'r Tollau Tramor a Chartref, neu wedi derbyn cyllid ar ei chyfer o rywle arall, ni ddylid cynnwys TAW yn yr hawliad.

Costau teithio
Dylai athrawon geisio teithio ar gludiant cyhoeddus a dewis yr opsiwn teithio rhataf.

Telir costau teithio ar y cyfraddau canlynol:

Lwfansau milltiroedd car (c y filltir)
Ad-delir milltiroedd car ar gyfradd safonol o 40c y filltir am y 100 milltir cyntaf ac 20c wedi hynny, heb ystyried nifer y teithiau.

Lle cytunwyd i logi car, bydd y Cyngor yn ad-dalu'r gost logi a chostau petrol gwirioneddol.

Mae angen darparu derbynebau.

Pan fydd 2 neu fwy o athrawon o'r un ysgol yn teithio i'r un lleoliad, dylid rhannu costau teithio.

Dylid didynnu milltiroedd dyddiol arferol ar gyfer teithio i'r gwaith.

Rheilffordd / Bws
Telir cost wirioneddol taith cyfradd safonol. Lle bynnag y bo'n bosibl ac ar gael dylid defnyddio tocynnau cost ostyngol priodol. Mae angen darparu derbynebau / tocynnau yn dangos y dyddiad teithio.

Tacsi
Dim ond pan nad oes cludiant cyhoeddus cyfleus ar gael y dylid defnyddio tacsis neu pan fydd angen cludo bagiau. Mewn sefyllfaoedd lle byddai athrawon mewn perygl personol, gellir defnyddio tacsis. Rhaid darparu derbynneb am gost defnyddio'r tacsi.

Hedfan
Telir cost tocyn economi. Mae angen darparu derbynebau/tocynnau yn dangos y dyddiad teithio.

Cyfraddau llety a chynhaliaeth
Bydd y Cyngor yn ad-dalu costau llety gwirioneddol hyd at £65 y nos.

Dim ond os yw'r diwrnod gwaith/teithio'n fwy na 12 awr yr ystyrir talu costau llety yn y DU.

Mewn perthynas â chostau cynhaliaeth:

- ar gyfer ymweliadau dydd, pan fydd athro/athrawes i ffwrdd o'i weithle arferol am fwy na 12 awr, bydd y Cyngor yn ad-dalu costau cynhaliaeth gwirioneddol hyd at £10 y dydd
- ar gyfer nosweithiau i ffwrdd, bydd y Cyngor yn ad-dalu costau cynhaliaeth gwirioneddol hyd at £15 am bob cyfnod o 24 awr.

Ni fydd y Cyngor yn ad-dalu costau llety lle bydd yr ymgeisydd yn aros gyda ffrindiau neu deulu.

Ni chaiff ymweliadau sy'n gysylltiedig â gwyliau personol neu wyliau teulu eu cyllido.

Ni fydd y Cyngor yn ad-dalu costau diodydd meddwol o dan unrhyw amgylchiadau.

Costau gofal plant
Telir costau gofal ychwanegol. Bydd rhaid darparu derbynebau gan warchodwr plant cofrestredig neu feithrinfa.

Ad-dalu
Dim ond y swm a gytunwyd fel y nodir yn y llythyr Dyfarnu y bydd y Cyngor yn ei ad-dalu i'r athro/athrawes. Bydd unrhyw swm y tu hwnt i'r terfyn a gytunwyd yn disgyn i'r naill neu'r llall o'r isod:

- bydd yr athro/athrawes neu'r ysgol yn gyfrifol am ei dalu; a/neu
- caiff ei dalu mewn amgylchiadau eithriadol. Rhaid cyflwyno ceisiadau mewn amgylchiadau o'r fath yn ysgrifenedig ymlaen llaw.

Ar yr athro/athrawes mae'r cyfrifoldeb os oes oedi i hawliadau neu geisiadau oherwydd na thelir costau postio digonol (gweler www.royalmail.com). Caiff athrawon eu hatgoffa nad yw tystiolaeth o bostio'n dystiolaeth bod post wedi cyrraedd ei gyrchfan.

Cynghorir athrawon i gadw copi o'u dogfennau hawlio (gan gynnwys derbynebau, anfonebau, ayb)

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â thalu hawliadau yr ystyrir eu bod yn anghywir neu nad ydynt yn cyfateb â'r cais.

Mewn achosion lle nad yw'r Cyngor wedi ad-dalu athro/athrawes o fewn 30 diwrnod, cynghorir y dylai ef/hi gysylltu â Thîm DPP y Cyngor.

1.13 Gwybodaeth bellach

Cyswllt: Y Tîm DPP, CyngACC, 4ydd Llawr, Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW, Ffôn: 029 2055 0350, Ffacs: 029 2055 0655, E-bost: dpp@gtcw.org.uk

Gellir cyrchu gwefan DPP Cymru drwy wefan y Cyngor yn www.gtcw.org.uk/cpd. Gellir cael copïau pellach o ffurflenni cais/hawlio hefyd o'r wefan.

2.0 Dilynwch y Camau i geisio a hawlio'n llwyddiannus

Cam 1. Nodi'r angen am DPP. Trafod gyda'r pennaeth/rheolwr llinell yn rhan o reoli perfformiad

Cam 2. Penderfynu sut i fynd i'r afael â'ch anghenion datblygiad proffesiynol. Cyfrifo cost y gweithgaredd.

Cam 3. Cwblhau ffurflen gais. Anfon cais i GyngACC CYN ymgymryd â'r gweithgaredd.

Cam 4. Tîm DPP yn gwerthuso'r cais yn erbyn y meini prawf. Llythyr Dyfarnu'n cyrraedd.

Cam 5. Ymgymryd â'r gweithgaredd.

Cam 6. Ysgrifennu'r adroddiad gan werthuso effaith y gweithgaredd, a chadw copi yn eich Portffolio Datblygiad Proffesiynol.

Cam 7. Cwblhau a llofnodi ffurflen hawlio cyllid (gan sicrhau bod y Pennaeth wedi llofnodi'r ffurflen, hefyd) a dogfennau eraill.

Cam 8. Os defnyddiwyd gwasanaeth cyflenwi/gwasanaeth goruchwylio ychwanegol, dylid gofyn i Fwrsar neu ysgrifenyddes yr ysgol i gwblhau'r ffurflen Hawlio Cyflenwi.

Cam 9. Ategu tystiolaeth o'r holl daliadau a wnaed, anfonebau/derbynebau ar gyfer cyrsiau, derbynebau ar gyfer unrhyw adnoddau, llety, teithio (heblaw milltiroedd), cynhaliaeth ayyb.

Cam 10. Atodi copi o'ch adroddiad (dewisol o ran y Bwrsari).

Cam 11. Anfon i GyngACC erbyn y dyddiad a nodir yn y llythyr Dyfarnu, ar ôl gwirio'r tâl postio a chadw copi o'r holl ddogfennaeth.

Cam 12. CyngACC yn anfon y taliad.

3.0 Bwrsari Datblygiad Proffesiynol

Beth yw Bwrsarïau Datblygiad Proffesiynol?

Mae Bwrsarïau Datblygiad Proffesiynol yn cynnig hyd at £650 o gymorth ariannol i helpu athrawon cofrestredig gyda'u datblygiad proffesiynol eu hunain.

Caiff ceisiadau am fwrsarïau eu cyllido ar sail y cyntaf i'r felin a gaiff falu.

Gweithgareddau cymwys
Gellir defnyddio bwrsarïau ar gyfer unrhyw weithgaredd a fydd yn dylanwadu ar arfer unigolyn yn yr ystafell ddosbarth neu'r ysgol. Mae rhestr isod o enghreifftiau o'r ffyrdd y gallech ddefnyddio Bwrsari:

- i arsylwi arfer mewn ysgolion eraill
- i dalu cost mynychu gweithdy, seminar neu gynhadledd
- i dalu ffioedd cwrs (ac eithrio traethodau hir). Gellir talu am gyrsiau sy'n rhychwantu dwy flwyddyn ariannol ar sail 'pro-rata'. Bydd angen cyflwyno cais newydd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ganlynol.
- i weithio gydag arbenigwr i ddatblygu ymagwedd ddyfeisgar at addysgu cyfres o wersi / modiwlau
- i gysgodi athro/athrawes mewn ysgol arall neu berson a gyflogir mewn maes arall fel diwydiant i ymestyn sgiliau/gwybodaeth
- i baratoi i gyfnewid rhwng swyddi tebyg mewn ysgolion gwahanol

Nid yw'r uchod yn rhestr derfynol ac anogir ceisiadau ar gyfer ystod eang o weithgareddau datblygiad proffesiynol. Gellir gweld enghreifftiau o brosiectau eraill a gynhaliwyd yn flaenorol gan athrawon ar wefan y Cyngor yn: www.gtcw.org.uk.

Dylech gyfeirio at restr y gwariant anghymwys ar dudalen 6.

Bwrsarïau sy'n cynnwys Ymweliad Rhyngwladol
Mae'r Bwrsari Rhyngwladol yn darparu cyfle i athrawon ymgymryd â datblygiad proffesiynol y tu allan i'r DU. Y mwyafswm a ddyrennir ar gyfer Bwrsari Rhyngwladol (yn Ewrop neu y tu allan) yw £650

Dyrennir cyllid ar sail y cyntaf i'r felin a gaiff falu.

Cynghorir athrawon sy'n dymuno gwneud cais am y cyllid hwn fod y meini prawf cymhwyso ychwanegol yn berthnasol:

- **rhaid** mai **prif** ffocws yr ymweliad yw ennill arbenigedd, a/neu arsylwi arfer da, trosglwyddadwy neu gymharu methodolegau. Ni chaiff ymweliadau lle mae agweddau diwylliannol yn rhan fawr o'r ymweliad eu cyllido
- **rhaid darparu amserlen fanwl gyda'r cynnig ar gyfer y prosiect. Rhaid i hyn gynnwys gweithgareddau i'w cynnal ar bob diwrnod. Gall ymweliad bara hyd at 2 wythnos.**
- ni ddarperir cyllid os ceir profiadau tebyg yn y DU
- rhaid i o leiaf ddwy ran o dair o'r amser gynnwys gweithgaredd ysgol / addysg
- dim ond ar ôl 3 blynedd y dyfernir ail Fwrsari Rhyngwladol, e.e. os dyfarnwyd Bwrsari Rhyngwladol i athro/athrawes yn y flwyddyn ariannol 2006-07, ni fyddai ef neu hi'n gymwys i wneud cais am fwrsari arall tan y flwyddyn ariannol 2010-11. Ni ddyrennir cyllid os yw'r ymgeisydd wedi cael cyllid o'r blaen, am unrhyw gyfuniad o grantiau, yn ystod y ddwy flynedd ariannol flaenorol (h.y. 2007-2008 a 2008-2009).
- ni chaiff ymweliadau a drefnir yn fasnachol eu cyllido
- ni chaiff ymweliadau sy'n ymwneud â sefydlu / datblygu cysylltiadau rhwng ysgolion eu cyllido
- ni chaiff ymweliadau sy'n gysylltiedig â gwyliau personol neu deuluol eu cyllido
- ni chaiff ceisiadau am ymweliadau lle mae athrawon yng nghwmni disgyblion, cyfeillion neu aelodau teulu eu cyllido

4.0 Prosiect Ymchwil Gweithredol

Beth yw Prosiect Ymchwil Gweithredol?

Mae Prosiect Ymchwil Gweithredol yn galluogi athrawon i gynnal **ymchwil gweithredol** ar raddfa fach yn yr ystafell ddosbarth a gaiff effaith ar eu harfer eu hunain fel athrawon.

Term yw 'ymchwil gweithredol' a ddefnyddir i ddisgrifio **proffesiynolion sy'n astudio'u harfer eu hunain** er mwyn ei wella. Mewn perthynas ag addysgu mae'n golygu gwerthuso effaith un neu fwy o ymyraethau lle mai'r nod yw ateb yr heriau a osodir gan broblem a nodwyd. Mae'r cyllid hwn yn darparu cyfle i athrawon arbrofi gydag ymagweddau newydd a dyfeisgar gyda chefnogaeth mentor.

Mae'r Prosiect Ymchwil Gweithredol yn darparu cefnogaeth i athrawon er mwyn iddynt gynnal ymchwil gweithredol a ddylai eu galluogi i ddatblygu sgiliau fel gwerthuso'u harfer a'u gwaith eu hunain, cynllunio prosiect ymchwil, casglu, cymharu a dehongli data priodol a chymhwyso canlyniadau'u hymchwil gweithredol.

Dylai athrawon geisio mynd i'r afael â materion sy'n unigryw i'w cyd-destun neu eu harfer eu hunain. Nid yw mathau eraill o ymchwil addysgol fel ymchwil ar gynnwys pynciau, archwilio materion ysgol gyfan neu'n rhan o fentrau AALlau, yn gymwys o dan y categori hwn.

Rhaid cynnal yr ymchwil weithredol o fewn blwyddyn ariannol.

NODWCH – Bydd angen cyflwyno ceisiadau am Brosiectau Ymchwil Gweithredol erbyn 1af Mehefin 2009. Ni chaiff ceisiadau sy'n cyrraedd y Cyngor ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried am gyllid.

Bydd y cyllid am y grantiau hyn yn talu am weithgareddau sy'n digwydd yn nhymhorau'r hydref a'r gwanwyn yn unig.

Caiff nifer y Prosiectau Ymchwil Gweithredol a ddyrennir ei gyfyngu i ddau ar y mwyaf ym mhob sefydliad 'derbyn'.

Gweithgareddau cymwys

Bydd yr ysgoloriaethau'n cyllido Prosiectau Ymchwil Gweithredol sy'n berthnasol i arfer yr ymgeisydd yn yr ystafell ddosbarth neu ei rôl yn yr ysgol. Gallai enghreifftiau o ymchwil addas gynnwys:

- cymharu effeithiolrwydd gwahanol dechnegau addysgu i gyflwyno topig drwy rannu dosbarth yn ddau grŵp a rhoi samplau cymaradwy ac addysgu'r ddau mewn ffyrdd gwahanol
- addasu ymddygiad mewn dosbarth gyda gwahanol systemau gwobrwyo a gwerthuso llwyddiant
- archwilio effaith cwricwlwm newydd ar grŵp sydd wedi dadrithio

Mae'n amlwg nad yw hon yn rhestr derfynol ac anogir ceisiadau am ymchwil gweithredol mewn meysydd eraill. Fodd bynnag, cynghorir ymgeiswyr bod yn rhaid i geisiadau gynnwys ymchwil newydd ac ni ddylent ddyblygu ymchwil flaenorol. Gellir gweld enghreifftiau o weithgareddau blaenorol a gynhaliwyd gan athrawon ar wefan y Cyngor yn: www.gtcw.org.uk/cpd

Cefnogaeth mentor

Mae gofyn i bob athro/athrawes sy'n cymryd rhan drefnu cefnogaeth gan fentor o sefydliad priodol fel Sefydliad Addysg Uwch, cymdeithas bwnc, Awdurdod Addysg Lleol, gwasanaeth ymgynghorol neu gorff ymchwil.

- Dylai'r mentor feddu ar y sgiliau proffesiynol a'r cymwysterau angenrheidiol i gynorthwyo'r athro/athrawes i gynllunio'r ymchwil gweithredol, darparu cefnogaeth yn ôl yr angen a chynorthwyo wrth ddadansoddi data a dod i gasgliadau.
- Bydd graddau'r gefnogaeth y bydd ei hangen gan y mentor yn ôl disgresiwn yr athro/athrawes a bydd yn amrywio o unigolyn i unigolyn. Fodd bynnag, ni ddylai athro/athrawes weithio'n annibynnol ar y mentor.

Gwariant cymwys

Bydd hyd at £1,500 ar gael ar gyfer Prosiectau Ymchwil Gweithredol; fodd bynnag, ni fydd angen y swm llawn ar bob ymgeisydd.

Mae tri chategori o wariant cymwys:

- i ddarparu gwasanaeth cyflenwi i'r athro/athrawes gynnal yr ymchwil.
  Dylai athrawon ddangos, yn eu cynllunio, sut y defnyddir pob diwrnod y gofynnir amdano.
- cefnogaeth mentor ar gyfer gweithgareddau fel:
  - datblygu methodoleg ymchwil fanwl gadarn
  - tiwtora mewn dulliau cynnal ymchwil a chasglu data
  - cyngor mentora parhaus
  - cefnogaeth i gwblhau'r ymchwiliad ymchwil
  - cymorth gyda'r adroddiad gwerthuso

Ni fydd yr agwedd hon fel arfer yn fwy na 25% o gyfanswm y grant h.y. £375.

- i dalu costau eraill, fel:
  - costau eitemau defnyddiadwy fel llungopïo, postio ac ati
  - costau teithio
  - mynediad i lyfrgell, cyfnodolion, deunyddiau ymchwil eraill
  - deunyddiau a chyfarpar ategol e.e. meddalwedd ond nid caledwedd
  - costau gofal plant uwchlaw'r rheiny a delir fel arfer

Gwariant anghymwys

- Cynnal cyrsiau byr neu ymweliadau rhyngwladol
- Prosiectau lle cyfyngir yr ymchwil i werthuso effaith adnoddau
- Prosiectau lle mae'r ymchwil yn ymestyn ar draws ysgol neu adran gyfan
- Ffioedd cwrs lle nad yw mentor yn cynorthwyo'r athro/athrawes yn benodol fel y nodir uchod
- Gweler hefyd rhestr y gwariant anghymwys ar dudalen 6.

Rhaid i **geisiadau** gael eu hategu gan ffurflen atodol gan y mentor.

Am wybodaeth bellach ynghylch cynnal prosiect ymchwil weithredol cysylltwch â'r Tîm DPP yn y Cyngor ar 029 2055 0350 neu drwy anfon ebost i dpp@gtcw.org.uk

5.0 Cyfnod Sabothol Athrawon

Beth yw Cyfnod Sabothol Athrawon?

Mae Cyfnod Sabothol Athrawon yn cynnig cymorth ariannol o hyd at £5,250 i alluogi athrawon profiadol i ymgymryd â chyfnod sylweddol o ddatblygiad proffesiynol, a fydd yn esgor ar fanteision i'w harfer pan ddychwelant i'r ystafell ddosbarth neu eu rôl yn yr ysgol.

Bydd athrawon rhan-amser yn derbyn cymorth 'pro-rata' yn dibynnu ar eu hymrwymiad addysgu arferol.

NODWCH – Bydd angen cyflwyno ceisiadau am Gyfnodau Sabothol Athrawon erbyn 1af Mehefin 2009. Ni chaiff ceisiadau sy'n cyrraedd y Cyngor ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried am gyllid.

Bydd y cyllid am y grantiau hyn yn talu am weithgareddau sy'n digwydd yn nhymhorau'r hydref a'r gwanwyn yn unig.

Caiff nifer y Cyfnodau Sabothol a ddyrennir ei gyfyngu i ddau ar y mwyaf ym mhob sefydliad 'derbyn'.

Cymhwysedd

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y prosiect hwn, rhaid i athrawon cofrestredig fod wedi addysgu'n barhaus mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru am o leiaf saith mlynedd (naill ai'n amser llawn neu'n rhan-amser).

Dylai athrawon sydd wedi cymryd cyfnod mamolaeth diweddar o 6-12 mis egluro'u sefyllfa gyda'r Tîm DPP.

Dylai athrawon sydd wedi ymgymryd â secondiad diweddar o fwy na 12 mis egluro'u sefyllfa gyda'r Tîm DPP.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau cefnogaeth eu pennaeth ymlaen llaw er mwyn gallu ymgeisio.

Gweithgareddau cymwys

- Caiff y Cyfnod Sabothol Athrawon, a ddylai fynd i'r afael ag anghenion datblygiad proffesiynol yr athro/athrawes, fod ar ffurf lleoliad yn y sector busnes, cyhoeddus, addysg neu wirfoddol
- Rhaglen amser llawn i ddysgu Cymraeg
- Rhaid i gyfnod Sabothol fod am o leiaf bedair wythnos, a hyd at fwyafswm o chwe wythnos
- Rhaid cynnal cyfnodau Sabothol fel un bloc o amser
- Rhaid i geisiadau gynnwys rhaglen gytunedig sy'n amlinellu'r gwaith i'w gynnal yn y sefydliad derbyn ynghyd â'r profiadau a ddarperir gan y lleoliad ar gyfer yr athro/athrawes. Dylai'r profiad hwn ymestyn y tu hwnt i gysgodi

Rhaid i bob cais gael ei ategu gan lythyr neu ddatganiad gan y person cyswllt sy'n goruchwylio yn y sefydliad derbyn, gan nodi'r profiad ehangach y byddant yn ei ddarparu i'r athro/athrawes. Dylid cynnwys enw, rôl a rhif ffôn cyswllt.

Gweithgareddau anghymwys

Ni ystyrir bod y gweithgareddau canlynol yn addas ar gyfer lleoliadau cyfnodau sabothol:

- ymgymryd â chyrsiau penodol, fel MA, MAdd neu'r Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd
- ymweliadau rhyngwladol
- cynnal ymchwil pwnc
- gweithgaredd yr ymgymerir ag ef yn ysgol yr athro/athrawes ei hun
- gweithgaredd sy'n para llai na 4 wythnos
- gweler hefyd y rhestr o wariant anghymwys ar dudalen 6

Os yw amgylchiadau cyflogaeth yr athro/athrawes yn newid yn ystod cyfnod y cyllid, rhaid i'r athro/athrawes hysbysu'r Cyngor ar unwaith am arweiniad ynghylch cymhwysedd.

Gellir gweld enghreifftiau o gyfnodau Sabothol yr ymgymerwyd â nhw'n flaenorol gan athrawon ar wefan y Cyngor yn www.gtcw.org.uk/cpd. Bydd y Tîm DPP yn trafod y mathau o sefydliadau y gallai fod ganddynt ddiddordeb mewn cynnig cyfnod Sabothol i athro/athrawes.

Os hoffech wirio a fyddai gweithgaredd arfaethedig yn debygol o fodloni'r meini prawf cyn cyflwyno'ch cais, cysylltwch â'r Tîm DPP ar 029 2055 0350.

6.0 Rhwydwaith Proffesiynol

Beth yw Rhwydwaith Proffesiynol?

Mae Rhwydwaith Proffesiynol yn galluogi grŵp o athrawon gydag angen datblygiad proffesiynol cyffredin, o amrywiol ysgolion, i weithio gyda'i gilydd yn rheolaidd, dros gyfnod o amser, i gynnal gweithgaredd neu raglen gyffredin. Mae'r aelodau'n cyfarfod ar sail diddordeb pwnc cyffredin, mater neu nod a rennir, neu rôl gyffredin. Gallai'r grŵp ddewis cyfeirio'i hun neu gynnwys ymgynghorydd. Rhaid i Rwydweithiau gynllunio i'w gweithgareddau gael eu cwblhau o fewn blwyddyn ariannol.

NODWCH – Bydd angen cyflwyno ceisiadau am Rwydweithiau Proffesiynol erbyn 1af Mehefin 2009. Ni chaiff ceisiadau sy'n cyrraedd y Cyngor ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried am gyllid.

Bydd y cyllid am y grantiau hyn yn talu am weithgareddau sy'n digwydd yn nhymhorau'r hydref a'r gwanwyn yn unig.

- Rhaid i bob Rhwydwaith Proffesiynol gynnwys o leiaf bum athro/athrawes o dair ysgol wahanol o leiaf
- Ni ddylai Rhwydweithiau gynnwys mwy na 12 o aelodau.
- Dylai Rhwydweithiau gynnwys cydbwysedd o aelodau o ysgolion sy'n ffurfio'r Rhwydwaith
- Rhaid i aelodau'r Rhwydwaith gyfarfod fel Rhwydwaith o leiaf dair gwaith. Ni allant gwrdd ar ddiwrnodau olynol.
- Ni chaiff gwaith mewn is-grwpiau ei gyllido.
- Rhoddir blaenoriaeth i'r Rhwydweithiau hynny ag aelodau o fwy nag un AALl
- Rhoddir blaenoriaeth i'r Rhwydweithiau hynny sy'n cynnwys arbenigedd allanol

Noder: Dim ond yr athrawon hynny sydd wedi cyflwyno ffurflenni cais 4b a all fod yn aelodau Rhwydwaith. Ni chaiff ysgolion eu had-dalu os byddant yn anfon athrawon eraill i gyfarfodydd Rhwydweithiau os na all aelod y Rhwydwaith fod yn bresennol.

Gweithgareddau cymwys

Gellir cyllido Rhwydweithiau Proffesiynol ar gyfer unrhyw weithgaredd a fydd yn dylanwadu ar arfer yr unigolyn yn ei ystafell ddosbarth neu ei ysgol(ion). Isod ceir rhestr o enghreifftiau o sut gellir defnyddio'r cyllid:

- datblygu ymagwedd ddyfeisgar at gyfres o wersi
- archwilio themâu/materion cyffredin sy'n rhychwantu'r cwricwlwm, e.e. ymddygiad, gwaith cartref, ac ati
- rhannu arfer da mewn maes fel llythrennedd, rhifedd neu TGCh, o fewn clwstwr o ysgolion

Nid yw'r uchod yn rhestr derfynol ac anogir ceisiadau ar gyfer ystod eang o Rwydweithiau Datblygiad Proffesiynol. Gellir gweld enghreifftiau o rwydweithiau eraill a gyllidwyd yn flaenorol ar wefan y Cyngor yn: www.gtcw.org.uk/cpd

Gweithgareddau anghymwys

Nid yw'r gweithgareddau canlynol yn addas ar gyfer prosiectau rhwydweithiau:

- cyfarfodydd tymhorol hirsefydlog ar gyfer arweinwyr pwnc neu reolwyr
- diweddaru Cynlluniau Gwaith, polisïau presennol neu drefniadau eraill ysgolion

Gwariant

- Caiff aelodau rhwydweithiau eu cyllido ar sail 'y pen'; a hynny hyd at £650 fesul aelod
- Mae cyllid yn anhrosglwyddadwy, hynny yw o'r naill aelod i'r llall
- Fel arfer bydd dwy ran o dair o'r gwariant ar gyfer costau cyflenwi i ganiatáu'r Rhwydwaith i gwrdd i gynnal ei dasg benodol
- Ni ddylai ffioedd ymgynghorydd fod yn fwy na 15% o gyfanswm y costau. Dylid rhannu'r rhain yn dybiannol gyfartal rhwng yr aelodau
- Dylai ceisiadau am gostau llungopïo gydnabod y bydd aelodau'r Rhwydwaith yn cynhyrchu copïau enghreifftiol yn unig
- Dylid cadw costau llogi ystafelloedd i isafswm a'u talu pan fydd angen cyfleusterau arbenigol yn unig

Gwariant anghymwys

- gweler rhestr y gwariant anghymwys ar dudalen 6

Dim ond costau sy'n gysylltiedig ag aelodau'r Rhwydwaith sydd wedi cyflwyno ffurflenni cais Rhwydwaith Proffesiynol unigol y bydd y Cyngor yn eu talu.

Os hoffech wirio a fyddai gweithgaredd arfaethedig yn debygol o fodloni'r meini prawf cyn cyflwyno cais, cysylltwch â'r Tîm DPP yn y Cyngor ar 029 2055 0350.

Rôl Cydlynydd y Rhwydwaith Proffesiynol
Bydd Cydlynydd y Rhwydwaith Proffesiynol yn gyfrifol am holl agweddau ariannol a gweinyddol y prosiect. Gan Gydlynydd y Rhwydwaith yn unig y derbynnir hawliadau am gyllid.

Dylai Cydlynwyr gyflwyno hawliad interim ar ran aelodau'r Rhwydwaith yn nhymor yr hydref lle y bo'n briodol. Mae angen cyflwyno hawliadau ac adroddiadau terfynol o fewn mis o gwblhau'r gweithgaredd. Bydd y dyddiad ar gyfer derbyn hawliadau ac adroddiadau wedi'i nodi yn y llythyr dyfarnu, ac ni fydd yn hwyrach na 18 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn ariannol.

Mae arweiniad i gynorthwyo Cydlynwyr ar gael yn: www.gtcw.org.uk/cpd

Caiff Cydlynydd Rhwydwaith gydlynu un rhwydwaith yn unig mewn unrhyw flwyddyn ariannol.

Sut i ymgeisio
Bydd Cydlynwyr Rhwydweithiau am drafod eu cynnig gydag aelodau'r Rhwydwaith cyn cyflwyno cais.

Bydd angen i Gydlynydd y Rhwydwaith Proffesiynol gasglu a chyflwyno ffurflenni cais unigol gan bob athro/athrawes yn y Rhwydwaith Proffesiynol, ynghyd â'r ffurflen ar wahân ar gyfer Cydlynwyr. Rhaid cyflwyno'r holl geisiadau gyda'i gilydd, ac ni ystyrir unrhyw rwydwaith arfaethedig oni wneir hyn.